Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Cardiff Business School
Ysgol Busnes Caerdydd



# Ysgol busnes gwerth cyhoeddus

**Diben Ysgol Busnes Caerdydd yw cyflawni gwerth economaidd a chymdeithasol drwy addysgu, ymchwil, ymgysylltu ac effaith ryngddisgyblaethol sy'n mynd i'r afael â heriau mawr ein hoes.**

Yn yr oes hon o newid mawr rydym wedi datblygu dull arloesol o ymdrin â phopeth a wnawn, i sicrhau perthnasedd drwy gael ein harwain gan heriau a gweithredu'n rhyngddisgyblaethol. Mae hyn yn dechrau gyda phwyslais ar ein llywodraethu da ein hunain ac ar fod yn arweinwyr meddwl ac yn fodelau rôl i'n rhanddeiliaid a'n cymunedau, boed yn ddomestig neu ryngwladol. Ar gyfer ein cyfadran ni, mae gennym amgylchedd ymchwil unigryw o ysgogol a chefnogol. Drwy annog ein myfyrwyr i ddatblygu eu hymdeimlad eu hunain o gyfrifoldeb ac ymwybyddiaeth gymdeithasol a moesegol, rydym yn eu paratoi i greu atebion i'r heriau mawr. I'r gymdeithas ehangach, rydym yn cyflawni ein cenhadaeth i yrru twf economaidd a gwelliant cymdeithasol gyda ffiniau ecolegol.

# Trawsnewid busnes a rheolaeth er budd cymdeithasol ac economaidd ar y cyd

Credwn y gall, ac y dylai, ysgolion busnes gyfeirio eu gweithgareddau a'u gweithrediadau tuag at wella amodau economaidd a chymdeithasol er budd cenedlaethau heddiw ac yfory. Mae'r persbectif hwn yn gyrru ein penderfyniad i wella dealltwriaeth a pherfformiad mewn pum maes thematig.

- **Gwaith gweddus:** Rydym yn canolbwyntio ar drawsnewid gwaith mewn modd technolegol yn gyflym ac effaith gwahanol ffyrdd o weithio, ar y cyd â heriau hirsefydlog o ran ansawdd swyddi, lles gweithwyr, llais a chyfranogiad, ac anghydraddoldebau yn y gweithle.
- **Economïau teg a chynaliadwy:** Rydym yn cyd-greu gwybodaeth i gefnogi datblygiad economïau sy'n sicrhau ffyniant a rennir a chynaliadwyedd amgylcheddol, ac yn gweithio gyda llywodraethau a phartneriaid i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo cyfranogiad a chynhwysiant economaidd llawn.
- **Sefydliadau'r dyfodol:** Rydym yn herio theori ac ymarfer i lywio'r gwaith o ail-lunio busnesau a chyd-gynhyrchu atebion sy'n galluogi sefydliadau i lywio problemau cymhleth sy'n gysylltiedig â newidiadau technolegol, sifftiau demograffig, yr argyfwng hinsawdd a phoblogaethau dros dro.
- **Llywodraethu da:** Rydym yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â rheolaeth gyhoeddus a pholisi, gan gynnwys y defnydd o dystiolaeth gan lywodraethau, wrth ymchwilio i lywodraethu corfforaethol ar draws yr economi, gan archwilio tryloywder, atebolrwydd, cynhwysiant, moeseg a gwerthoedd.
- **Arloesedd cyfrifol:** Rydym yn gweithredu mewn modd rhyngddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar y rhanddeiliad i nodi sbardunau, prosesau a chanlyniadau arloesedd, a gwerthuso goblygiadau cymdeithasol, ariannol ac ymddygiadol newid technolegol.

## Rwy'n sefyll dros_ y genhedlaeth nesaf

"Mae angen i ni ddychmygu sut gall y byd fod yn wahanol. Rydym yn ystyried materion o sawl safbwynt ac yn herio'r sefyllfa sydd ohoni. Fel arfer, nid yw ysgolion busnes yn eglur am gael effaith fawr ar gymdeithas, ond dyna'n union rydyn ni'n ei wneud. Hon yw'r genhedlaeth sy'n mynd i unioni pethau."

**Yr Athro Rachel Ashworth**
Deon Ysgol Busnes Caerdydd



# Ysgol busnes gwerth cyhoeddus

### Ein gweledigaeth

Adeiladu ar ein cydnabyddiaeth fyd-eang fel ysgol busnes sy'n gwella amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol drwy addysgu, ymchwil, ymgysylltu ac effaith ryngddisgyblaethol sy'n mynd i'r afael â heriau mawr, tra'n gweithredu ymagwedd flaengar tuag at ein llywodraethu ein hunain.

### Ein cenhadaeth

Dod â buddion ystyrlon a pharhaus i gymdeithas sy'n gwella amodau cymdeithasol ac economaidd trwy addysgu ac ymchwil ryngddisgyblaethol sy'n mynd i'r afael â heriau mawr.



### Strategaeth

Mae gwerth cyhoeddus yn llywio ein gweithgareddau ac yn sail i lywodraethu ein hysgol, ein penderfyniadau rheoli, ein partneriaethau, a'n hymrwymiadau. Mae'n siapio ein gwaith academaidd ac yn diffinio sut rydym yn gweithredu o ddydd i ddydd. Rydym yn galluogi:

- perthynas fwy synergaidd rhwng ymchwil, addysgu, a'r gymdeithas ehangach
- trafodaeth ac ymgysylltiad â'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector
- agwedd ymgysylltiol ac agored sy'n agored i safbwyntiau gwahanol
- ymrwymiad sefydlog i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan gydnabod y gwahanol gefndiroedd, profiadau, safbwyntiau, credoau a diwylliannau y mae unigolion yn eu cynnig i wella ein hamgylchedd gwaith ac astudio

### Ein gwerthoedd

Rydym yn ymdrechu i fod yn:

- chwilfrydig, angerddol a chreadigol yn ein hymchwil a'n haddysgu
- heriol a phryfoclyd wrth ddatblygu ein meddwl
- colegol a rhyngddisgyblaethol wrth fynd i'r afael â heriau mawr
- cyfrifol, gonest a thryloyw wrth wneud ein gwaith
- mentrus, moesegol ac atblygol wrth fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol
- dewr a hyderus wrth arwain ein maes
- parchus ac empathig yn ein perthynas ag eraill


Rydym yn sefyll dros_
gyfrifoldeb
"Heddiw, rydym yn wynebu angen dybryd am newid ar lefel fyd-eang. Fodd bynnag, ar y lefel leol, unigol y gallwn ni wneud cyfraniad yn ein ffordd gadarnhaol ein hunain. Rwy'n credu bod gan bob un ohonom ni gyfrifoldeb i wneud hyn. Mae cysylltu pethau ar lefel fyd-eang â phethau ar lefel leol yn ein helpu i ddeall sut."
Yr Athro Peter Wells
Y Rhag-Ddeon ar gyfer Gwerth Cyhoeddus
↘ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn campaigns.cardiff.ac.uk/gwerth-cyhoeddus


Rydym yn sefyll dros_
ddiogelwch yn y gwaith
“Dylai’r gweithle fod yn lle diogel. Mae angen i bobl allu dod i’r gwaith a defnyddio’u sgiliau, boed yn sgiliau creadigol, sgiliau arloesi, sgiliau dadansoddi neu sgiliau trin data. Mae angen llawer o wahanol fathau o bobl arnom ac mae angen iddynt deimlo’n ddiogel i lwyddo.”
Bethany Brown
Rheoli Busnes (MSc 2021)
↘ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn campaigns.cardiff.ac.uk/gwerth-cyhoeddus

# Gwerth cyhoeddus yn ymarferol...

Yn yr ysgol rydym yn gwneud defnydd o arbenigedd a gwybodaeth a gydnabyddir yn rhyngwladol, sy'n cynnwys:

- cyfrifeg a chyllid
- economeg
- logisteg a rheoli gweithrediadau
- rheolaeth, cyflogaeth a threfniadaeth
- marchnata a strategaeth

Rydym yn adolygu ein hymchwil a'n haddysgu yn barhaus er mwyn ymgorffori dull rhyngddisgyblaethol, rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar atebion. Ein nod yw ysbrydoli ein myfyrwyr i fod yn wybodus ac yn angerddol am argyfyngau byd-eang, ac i feddu ar y dewrder, y cwmpawd moesegol, a'r gallu i gyflawni newid er gwell.

## Ymchwil, Arloesedd ac Ymgysylltu

- Cysoni ein hymchwil a chyfeirio adnoddau i fynd i'r afael â heriau mawr trefniadaeth a rheolaeth.
- Annog cyfranogiad rhanddeiliaid wrth gynllunio a chynnal ymchwil er mwyn sicrhau bod gwerth gwirioneddol i'n gwaith.
- Darparu fforwm agored ar gyfer rhannu syniadau a gwybodaeth gan ystod o randdeiliaid allanol, gan gynnwys pobl nad ydynt yn academyddion ac aelodau o'r gymuned, fel y gallwn ailraddnodi'r materion o bwys yn barhaus.
- Adeiladu cysylltiadau cryfach â disgyblaethau eraill yn y gwyddorau cymdeithasol a thu hwnt i greu timau aml-dalentog.

## Addysgu

- Dylunio cwricwla sy'n cyfuno arbenigedd disgyblaeth gyda heriau a themâu mawr i ddarparu mewnwelediadau diriaethol i fyfyrwyr.
- Cynyddu cyfranogiad rhanddeiliaid yn y gwaith o gynllunio a darparu addysgu, gan gynnwys cyrsiau byr a digwyddiadau briffio wedi'u teilwra, er mwyn sicrhau perthnasedd ac amseroldeb.
- Canolbwyntio ar ganlyniadau gwerthfawr i fyfyrwyr, gan gynnwys meddwl beirniadol gwell, gwell cyflogadwyedd, a doethineb ymarferol.
- Creu cyfleoedd i fyfyrwyr ymgysylltu â phartneriaid allanol drwy rwydweithiau a gwasanaethau cymorth yr Ysgol.

## Llywodraethu

- Cymhwyso ein hymrwymiad gwerth cyhoeddus ar draws pob agwedd ar ein strwythurau, prosesau a phenderfyniadau mewnol ein hunain gan gynnwys recriwtio, dyrchafiadau, a dosbarthu cyllid dewisol.
- Dathlu amrywiaeth a chydnabod bod y gwahanol gefndiroedd, profiadau, safbwyntiau, credoau a diwylliannau y mae unigolion yn eu cynnig yn gwella ein hamgylchedd gweithio ac astudio a'n henw da.
- Dangos ein hymrwymiad i lywodraethu blaengar drwy fentrau gan gynnwys UNPRME, BITC, a'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

➘ Dysgwch fwy am ein hymchwil arloesol yn
**www.cardiff.ac.uk/cy/business-school/research**

# Adeiladu ar ein llwyddiant...

**Gan ein bod yn ysgol busnes ryngddisgyblaethol lwyddiannus, rydym mewn sefyllfa dda i wella'r gwaith o safon yr ydym yn ei wneud ar hyn o bryd drwy ei ategu â'n hymrwymiad i ddarparu Gwerth Cyhoeddus.**


## Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF 2021)

Yn un o ddwy ysgol fusnes yn unig yn y DU sydd wedi cynnal y sgôr uchaf posibl ar gyfer amgylchedd ymchwil, ac 2il ymhlith 108 o ysgolion busnes yn y DU am bŵer ymchwil.



Dros 350 o staff o 40 o wledydd.

Llofnodwr UNPRME, aelod o BITC Cymru, a chyflogwr Cyflog Byw Achrededig.



Dros 3,500 o fyfyrwyr, a 150 o fyfyrwyr PhD, o fwy na 100 o wledydd.

Achrediad AACSB – sy'n ein rhoi ymhlith 5% o'r ysgolion busnes gorau yn y byd.

24 o brifysgolion blaenllaw'r DU wedi ymrwymo i gynnal yr ymchwil orau oll, ac addysgu a dysgu rhagorol.

Mae rhaglenni ôl-raddedig AMBA yn hyrwyddo athroniaeth sy'n canolbwyntio ar effaith, cyflogadwyedd a chanlyniadau dysgu.

Cardiff Business School
Ysgol Busnes Caerdydd




**Ysgol Busnes Caerdydd**
Prifysgol Caerdydd,
Adeilad Aberconwy,
Rhodfa Colum,
Caerdydd CF10 3EU

www.cardiff.ac.uk/cy/business-school
facebook.com/BusinessCardiff
twitter.com/cardiffbusiness